

Safonau'r Gymraeg

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn Nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Cyflwyniad

Ers 30 Mawrth 2017 bu'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru a'i dîm gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Amlinellir y rhain yn hysbysiad cydymffurfiaeth gyfreithiol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, y gellir ei weld ar ein gwefan.

Mae'n bleser gennym ymgorffori naws y Safonau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig o ran galluogi pobl De Cymru i ddefnyddio eu dewis iaith pan fyddant yn cysylltu â ni. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni yn erbyn ein Safonau ac wedi gwneud sawl newid i'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn ein galluogi i wneud hyn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r prosesau sydd ar waith ym mhob rhan o dîm y Comisiynydd i hyrwyddo'r ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau.

Goruchwyliaeth Fewnol

Rydym wedi sefydlu Gweithgor Cymraeg, a gaiff ei gadeirio gan yr Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb. Mae'r Grŵp hwn wedi datblygu prosesau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ac mae'n gyfrifol am y gwaith parhaus o fonitro a goruchwyllo ein cydymffurfiaeth a'n datblygiad. Mae aelodau'r grŵp hefyd yn gweithredu fel 'Hyrwyddwyr' y Gymraeg, ac yn chwarae rhan yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Safonau ym mhob rhan o'r tîm.

Yn ogystal, rydym yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, ein bod yn cydweithio â Heddlu De Cymru wrth hyrwyddo cynhwysiant iaith.

Mae holl staff newydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth ar Safonau'r Gymraeg a darperir dogfen Ganllaw iddynt i'w cefnogi â'u cyfrifoldebau unigol o ran y Gymraeg.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Cyflenwi Gwasanaethau' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Rhoi troednodiadau ar waelod negeseuon e-bost a phapurau pennawd i esbonio ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn nodi eu gallu i siarad Cymraeg ar droednodiadau e-bost.
- Mae llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon llais i brif rifau llinell dir yn ddwyieithog.

- Caiff pob un sy'n ffonio tîm y Comisiynydd ei gyfarch yn ddwyieithog. Wedyn, rhoddir cymorth yn y Gymraeg hyd nes y daw hyn bellach yn amhosibl am nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael neu am fod angen siarad ag arbenigwr ar y pwnc nad yw'n siarad Cymraeg. Caiff pob galwr Cymraeg ei drin gyda chwarteisi a pharch a gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybodol o'u dewis iaith, gofynnwn iddynt a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol i gyswllt dros e-bost, drwy lythyr neu dros y ffôn oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi cysylltu yn Saesneg neu oni bai bod ei ddewis iaith eisoes yn hysbys.
- Rydym yn cofnodi manylion y rhai sy'n rhoi gwybod i ni eu bod am gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae pob cyfarfod cyhoeddus, digwyddiad a chynhadledd yn cynnig y cyfle i sgwrsio yn Gymraeg. Mae'n ofynnol i unigolion roi gwybod i ni am eu dymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg erbyn dyddiad penodedig er mwyn i ni allu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn briodol.
- Mae pob arwydd newydd a gaiff ei osod yn swyddfa'r tîm yn ddwyieithog.
- Mae'r holl ddogfennau defnydd safonol a ddefnyddir yn y tîm yn ddwyieithog.
- Mae ein gwefan yn ddwyieithog. Mae'r holl ddogfennau 'atodol' a lwythwyd ar y wefan ers Ebrill 2017 ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae trydariadau cyfrif Twitter y Comisiynydd (@commissionersw) yn ddwyieithog. Ymatebir i unrhyw sylwadau yn Gymraeg sydd angen ymateb yn Gymraeg yn ystod oriau swyddfa (fel gyda sylwadau Saesneg).
- Pryd bynnag y dyfernir grantiau neu gontractau gyda chyllid gan y Comisiynydd, cynigir y broses yn ddwyieithog. Caiff y gallu i hyrwyddo'r Gymraeg ei ystyried cyn belled ag y bo modd yn y broses ddyfarnu.

Safonau Lluio Polisi

Rydym yn gweithio i fodloni ein safonau 'Lluio Polisi' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Pan fydd polisïau neu brosiectau'n cael eu sefydlu neu eu hadolygu a'u bod yn destun proses 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb', mae hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau'r Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Mae ymgynghori neu ymchwil yn achub ar gyfleoedd i wahodd safbwyntiau ar sut y gallem hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Safonau Gweithredol

Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Gweithredol' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Gall aelodau o'r staff sy'n dymuno cael dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg neu sy'n dymuno cynnal prosesau adnoddau dynol yn Gymraeg wneud hynny.
- Pan fyddwn yn mynd ati i hysbysebu unrhyw swydd, byddwn yn mynd drwy broses i asesu'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y swydd.
- Cynigir prosesau recriwtio yn ddwyieithog.
- Bydd pob aelod newydd o'r staff sy'n ymuno â Thîm y Comisiynydd yn cael ei frifio ar ofynion a phrosesau Safonau'r Gymraeg yn ei sesiynau sefydlu.
- Er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, cynhelir sesiynau Siop Siarad anffurfiol ar gyfer unrhyw aelodau o staff sy'n dymuno eu mynychu, boed yn medru'r Gymraeg neu beidio.
- Mae hyfforddiant Cymraeg ar y cyd â Heddlu De Cymru ar gael fel rhan o ymrwymadau Dysgu a Datblygu cyffredinol y Tîm.
- Mae arwyddion y gweithle'n ddwyieithog.

Safonau Cadw Cofnodion

Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Cadw Cofnodion' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Rydym yn storio'r holl wybodaeth angenrheidiol yn unol â'n hysbysiad cydymffurfiaeth. Mae'r cofnodion yn cynnwys, er enghraifft, nifer y cwynion a wneir mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg, nifer yr aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg, nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd sy'n cael eu hasesu ar gyfer sgiliau Cymraeg a chanlyniadau'r asesiadau, a nifer y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg y mae aelodau o staff wedi eu mynychu.
- Mae'r broses cadw cofnodion hefyd yn cynnwys storio gwybodaeth ar y camau rydym wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Cwynion

Mae gennym bolisi sefydledig ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwynion ynglŷn â chadw at Safonau'r Gymraeg a gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Casgliad

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cynhwysiant iaith yn rhan gyffredin o fusnes o ddydd i ddydd o fewn tîm y Comisiynydd.

Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi diweddariadau yn erbyn y Safonau, gan gynnwys gwybodaeth ar ofynion penodol cadw cofnodion. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.